# Canllaw Defnyddiwr – Cofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC)

## Ar gyfer mabwysiadwyr

Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Adoption Register Wales

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Adoption Register Wales

link maker

# Cynnwys


Canllaw defnyddiwr – Cofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC) ........ 1
Cynnwys ........ 2
Cyflwyniad ........ 3
Cyn i chi ddechrau… ........ 3
Cofrestru ar gyfer cyfrif Link Maker ........ 4
Cofrestru drwy eich gweithiwr cymdeithasol ........ 5
Ynghylch eich tudalen hafan ........ 5
Rheoli'ch proffil a'ch gosodiadau teulu ........ 6
Cysylltu gweithwyr cymdeithasol a rheoli caniatadau gweithiwr cymdeithasol ........ 6
Chwilio am broffiliau plant ........ 8
Hysbysu gweithiwr cymdeithasol ........ 9
Mynegi diddordeb mewn proffil plentyn ........ 9
Rheoli datganiadau o ddiddordeb a ddaw i chi ........ 10
Defnyddio'r dudalen trafodaethau a diddordebau ........ 10
Rheoli hysbysiadau proffil newydd ........ 11
Rheoli gosodiadau eich cyfrif ........ 11
Defnyddio nodweddion cymunedol ........ 12
Dod o hyd i gymorth pellach ........ 12

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw defnyddiwr hwn ar gyfer darpar fabwysiadwyr. Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych chi sut i gofrestru gyda Chofrestr Fabwysiadu Cymru os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny (ewch i dudalen 7).

Ariennir Cofrestr Mabwysiadu Cymru (CFC) gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sy'n ei chynnal, gyda'r nod o helpu i baru plant gyda mabwysiadwyr. Mae'n darparu system genedlaethol er mwyn gallu ystyried yr ystod ehangaf o gysylltiadau trwy Gymru a rhannau eraill yn y DU os yw'n briodol, a sicrhau y gellir dod o hyd i leoliad addas cyn gynted â phosibl.

Mae'n ddisgwyliad bod unrhyw fabwysiadwr a phlentyn yn cael eu hychwanegu at CFC: mabwysiadwyr o fewn mis o gael eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth sy'n gwneud y penderfyniadau a'r plant o fewn mis yn dilyn y Gorchymyn Gosod.

Link Maker yw'r gwasanaeth sy'n rheoli'r Gofrestr yng Nghymru felly, pan ddefnyddir y term 'Cofrestr' neu 'CFC' yn y canllaw, byddwch yn gwybod ein bod yn cyfeirio at Link Maker.

Mae CFC yn darparu awyrgylch ddiogel a saff i chwilio am broffiliau plant a theuluoedd, i fynegi diddordeb mewn lleoliadau posibl, cychwyn trafodaethau ac anfon dogfennau.

Mae CFC yn ddwyieithog ac mae'n gadael i chi fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg; fodd bynnag, mae'n rhaid i destun rhydd gael ei gyfieithu i'r Gymraeg cyn i'r proffil fynd yn fyw. Cyfeiriwch at y Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer defnyddio CFC sydd ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol https://adoptcymru.com/hafan/. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gallu egluro hyn ymhellach i chi.

# Cyn i chi ddechrau…

Trefnwch sut i fynd ati i ddod o hyd i deulu gyda'ch gweithiwr cymdeithasol. Sicrhewch fod pawb yn deall ei gilydd er mwyn osgoi unrhyw rwystredigaeth a chamddealltwriaeth. Ynghyd â chynghorion cyffredinol (megis pa mor aml fyddwch chi'n cwrdd), rydym yn awgrymu'r pynciau canlynol ynglŷn â dod o hyd i deulu ar CFC:

- Adolygwch eich proffil gyda'ch gilydd - a yw'n ddarlun teg ohonoch? Mae gan eich gweithiwr cymdeithasol y fantais o weld proffiliau teuluoedd eraill a gall helpu i sicrhau bod eich un chi'n cynnwys eich holl gryfderau.

- Mynegi diddordeb. Byddwn yn eich annog i drafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol cyn datgan diddoreb. Trafodwch gyda'ch gweithiwr cymdeithasol sawl datganiad o ddiddordeb y mae'n ystyried sy'n briodol i chi eu cael ar yr un pryd (gallwch gyflwyno hyd at 5 ar Link Maker)? Nid oes un ateb sy'n addas i bawb gyda'r cwestiynau hyn ac mae'n bosibl y bydd cyngor eich gweithiwr cymdeithasol yn newid dros amser .. daliwch ati i drafod.


- Cysylltu â gweithwyr cymdeithasol plant. Fe'ch anogir i drafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol cyn gwneud penderfyniad gan fod yn well ganddo gael trafodaeth gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn gyntaf. Sicrhewch fod y bobl gywir mewn cysylltiad, ond i drafod plentyn dim ond os ydych chi'n gwybod bod y ddau weithiwr cymdeithasol yn gyffyrddus â hyn.

- Mynd ar drywydd diweddariadau. Pan fo trafodaeth ar waith, gall wythnosau neu weithiau fisoedd fynd heibio cyn y cewch ddiweddariad. Gall fod yna lawer o faterion cymhleth yn dal pethau'n ôl; asesiadau meddygol, prosesau cyfreithiol, trafodaethau parhaus gyda theuluoedd eraill. Mae'n rhesymol eich bod yn cael eich diweddaru a bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gallu dweud wrthych pa mor fuan â pha mor aml y dylech ofyn am ddiweddariad ac ai chi neu'ch gweithiwr cymdeithasol ddylai wneud hynny.

Beth bynnag fo'r sefyllfa, os nad ydych yn sicr, gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol. Mae e yno i'ch helpu.

## Cofrestru ar gyfer cyfrif Link Maker

Mae Cofrestru ar gyfer Link Maker yn rhwydd.  Ewch i wefan Link Maker a chlicio ar y botwm 'Cofrestru' sydd yng nghornel uchaf y dudalen ar y dde. Bydd y system yn rhoi dau ddewis i chi. Dewiswch y botwm 'Mabwysiadwr/gofalwr maeth' a dewis pa nodweddion yr hoffech eu defnyddio yn y gwymplen. I gofrestru fel mabwysiadwr, dewiswch 'Mabwysiadu a nodweddion cymunedol'.




Nawr, nodwch eich manylion personol i greu eich proffil a'ch cyfrif mabwysiadwr. Bydd dolen gychwyn yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad e-bost a roesoch yn gywir. Os ydych chi'n fabwysiadwr yn y broses gymeradwyo, mae'n bosibl nad ydych eto wedi cael eich cymeradwyo ar gyfer anghenion penodol. Cofiwch drafod eich proffil cyn ei ysgrifennu a hefyd, does dim rhaid i chi lanlwytho'ch proffil

eich hun os byddai'n well gennych beidio; gall eich gweithiwr cymdeithasol wneud hyn ar eich rhan os byddai'n well gennych.

Ar ôl i chi greu eich proffil, bydd yn rhaid cadarnhau eich cyfrif gyda'ch Awdurdod Lleol/asiantaeth.  Gall y broses hon gymryd hyd at bum diwrnod gwaith.  Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn dal i allu defnyddio'r nodweddion cymunedol (gweler adran ddiweddarach). Ar ôl i'ch cyfrif gael ei gadarnhau, byddwch wedi cofrestru ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru a gallwch ddechrau defnyddio nodweddion mabwsyiadu Link Maker.

## Cofrestru trwy eich gweithiwr cymdeithasol


Gall eich gweithiwr cymdeithasol greu proffil mabwysiadu ar eich cyfer, gan arbed amser i chi. Byddwch yn cael e-bost yn gofyn i chi gofrestru eich cyfrif a fydd yn cael ei gysylltu'n uniongrychol â'ch proffil mabwysiadu. Gan fod eich gweithiwr cymdeithasol wedi creu eich proffil, bydd eich cyfrif yn cael ei gymeradwyo'n awtomatig, sy'n golygu y gallwch ddechrau defnyddio nodweddion mabsywiadu Link Maker cyn gynted â'ch bod yn cofrestru. Trwy'r broses hon, bydd eich gweithiwr cymdeithasol wedi'i gysylltu'n awtomatig i'ch cyfrif ac yn gallu ymdrin â'r ymholiadau a rheoli eich proffil. Drwy gael cysylltiad â'ch gweithiwr cymdeithasol, gallwch drafod paru posibl a'i hysbysu o unrhyw broffiliau plant y mae gennych ddiddordeb ynddynt (gweler adran ddiweddarach).

## Ynghylch eich tudalen hafan

Gallwch fynd at nifer o nodweddion a dolenni cyflym o'ch tudalen hafan.  Un elfen amlwg ar frig eich tudalen hafan yw'r adran 'Plant ar Ddangos'. Mae rhai plant, a allai aros yn hirach, yn cael eu 'dangos' yma gan Link Maker.


Islaw'r adran 'Plant sy'n aros', mae eich 'Ffrwd bersonol'. Yn eich llif personol, cewch y wybodaeth ddiweddaraf ar y gymuned a diweddariadau cyfathrebu, ynghyd ag unrhyw gyhoeddiadau Link Maker a allai fod yn berthnasol i chi.

Defnyddiwch yr hidlydd llif personol i ddewis y wybodaeth yr hoffech ei gweld. Mae'r diweddariadau cyfathrebu'n dangos y gweithgareddau diweddaraf ynghylch eich achosion. Hefyd, gallwch ddarllen newyddion a diweddariadau diwethaf Link Maker yma. I ddychwelyd i'r dudalen hon o unrhyw dudalen arall,




cliciwch ar ‘Hafan’ sydd ar frig y ddewislen.

# Rheoli’ch proffil a’ch gosodiadau teulu




Gellir dod o hyd i’r holl osodiadau sy’n ymwneud â’ch proffil mabwysiadu mewn un man: yn eich tudalen gosodiadau teulu. I reoli eich gosodiadau teulu, dewiswch ‘Gosodiadau’ yn y gwymplen ‘Dod o hyd i blant’. Gallwch weld a golygu eich proffil, rheoli’r gosodiadau sydd ar gael a dod o hyd i unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â'ch achos.





Fodd bynnag, rydym yn eich annog i drafod unrhyw newidiadau gyda'ch gweithiwr cymdeithasol cyn i chi eu cwblhau. Oherwydd bod dyletswydd statudol i sicrhau bod yr holl broffiliau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae’n rhaid i’r Asiantaeth Fabwysiadu sicrhau bod unrhyw newidiadau’n cael eu cyfieithu i un o’r ieithoedd.

# Cysylltu gweithwyr cymdeithasol a rheoli caniatadau gweithiwr cymdeithasol

Trwy Link Maker, gallwch gyfathrebu’n hawdd ac yn effeithiol gyda’ch gweithiwr cymdeithasol mewn amgylchedd sy’n saff a diogel. Gellir cysylltu gweithwyr cymdeithasol o’ch Awdurdod Lleol/Asiantaeth yn uniongyrchol gyda’ch proffil mabwysiadu, gan eich galluogi i hysbysu eich gweithwyr cymdeithasol o unrhyw broffiliau plant y mae gennych ddiddordeb ynddynt (gweler adran ddiweddarach).

I gysylltu gweithiwr cymdeithasol â’ch cyfrif, ewch i’r dudalen ‘Gosodiadau’ yn y gwymplen ‘Dod o hyd i blant’ a dewiswch ‘Cysylltu â gweithiwr cymdeithasol’ ar




waelod y dudalen. Os ydych chi wedi cofrestru trwy weithiwr cymdeithasol, mae’n bosibl ei fod eisoes wedi’i gysylltu â'ch cyfrif chi.


Gallwch ganiatáu i weithiwr cymdeithasol sydd wedi’i gysylltu ymdrin â’ch ymholiadau neu reoli’ch proffil a allai fod yn haws i chi.  Gellir troi’r caniatadau hyn ymlaen trwy fynd i’r dudalen ‘gosodiadau teulu’ a chlicio ar y botymau ‘Ymdrin ag ymholiad’ a ‘Golygu proffil’. Yn syml, dewiswch weithiwr cymdeithasol o’r gwymplen ac yna fe roddir y caniatadau.



# Chwilio am broffiliau plant





Unwaith bydd eich cyfrif yn fyw ac wedi'i chymeradwyo, bydd gennych fynediad i'r ddewislen 'Dod o hyd i blant' a gallwch ddechrau chwilio am broffiliau fyddai'n addas. Yn y ddewislen 'Dod o hyd i blant', dewiswch 'Plant i'w Mabwysiadu'. Yma, mae bwrdd gwaith chwilio lle gallwch chwilio am broffiliau plant gan ddefnyddio meini prawf penodol, gweld proffiliau newydd, nodi proffiliau y mae gennych ddiddordeb ynddynt a chuddio'r rheini nad ydynt o ddiddordeb i chi. Bydd eich paru posibl gorau, sydd wedi'i seilio ar eich proffil, yn ymddangos ar frig y rhestr.





I nodi proffil plentyn posibl, cliciwch ar y 'Nod tudalen' sydd ar un ai'r dudalen ganlyniadau chwilio neu ar broffil llawn y plentyn. Yna, bydd y proffiliau hyn ar gael mewn tab ar wahân, gan ei gwneud hi'n rhwydd ac yn gyflym i ddod o hyd i broffiliau yr ydych eisoes wedi'u gweld.

Fel arall, os ydych chi'n gwybod nad oes gennych ddiddordeb mewn rhai proffiliau, mae'r botwm 'Cuddio' yn gweithio yn yr un modd. Fydd y proffiliau hyn ddim yn ymddangos yn y canlyniadau chwilio, ond byddant i'w gweld yn y tab 'Wedi'u cuddio' os ydych yn dymuno edrych arnyn nhw eto.





Os ydych chi wedi'ch cysylltu â gweithiwr cymdeithasol, gallwch hysbysu eich gweithiwr cymdeithasol ynghylch proffil plentyn y mae gennych ddiddordeb ynddo yn (gweler adran ddiweddarach).

Gallwch gadw paramedrau chwilio ar ôl dewis hidlwyr ar y dudalen chwilio. Ar ôl i chi ddewis eich hidlwyr fe welwch fotwm 'Cadw Chwiliad Newydd'. Yma gallwch




gadw eich chwiliad gydag enw penodol i'w ddewis o'r hidlydd 'chwiliad wedi'i gadw' a fydd yn ymddangos ar ôl i chi gadw unrhyw chwiliad.

# Hysbysu gweithiwr cymdeithasol




Os ydych chi wedi cysylltu gweithiwr cymdeithasol â'ch cyfrif gweler adran flaenorol), gallwch gyfathrebu gyda'ch gweithiwr cymdeithasol yn uniongyrchol ynghylch eich proffiliau plant.  I hysbysu eich gweithiwr cymdeithasol o broffil plentyn y mae gennych ddiddordeb ynddo, cliciwch ar y botwm 'Hysbysu gweithiwr cymdeithasol' ar y proffil a dewis y gweithiwr cymdeithasol sydd wedi'i gysylltu o'r gwymplen.   Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cael ei hysbysu ac yn gallu gweld proffil y plentyn a mynegi diddordeb ar eich rhan.

# Mynegi diddordeb mewn proffil plentyn





Ar ôl i chi ddod o hyd i broffil plentyn y mae gennych ddiddordeb ynddo, cliciwch 'Mynegi diddordeb' sydd i'w gael ar dudalen proffil llawn y plentyn. Mae mynegi diddordeb mewn proffil plentyn yn gwahodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant i edrych ar eich proffil chi. Bydd ganddo'r opsiwn i ddechrau trafodaeth gyda chi fel bod modd rhannu negeseuon a dogfennau. Cofiwch sicrhau bod gennych gefnogaeth eich Llywodraeth Leol/asiantaeth cyn mynegi diddordeb mewn proffiliau.

Ar ôl i ddiddordeb gael ei fynegi, bydd yn ymddangos yn eich trafodaethau (gweler adran ddiweddarach). Gallwch ganslo eich diddordeb trwy glicio ar ‘Canslo diddordeb’ yn y drafodaeth ei hun. Bydd gweithiwr/gweithwyr cymdeithasol y plentyn/plant yn cael ei hysbysu o’r newid hwn.

Gallwch fynegi diddordeb mewn hyd at bum proffil ar y tro. Os nad ydych wedi cael ymateb o fewn pythefnos, gallwch chi a/neu eich gweithiwr cymdeithasol gysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn uniongyrchol am ddiweddariad. O'r pwynt hwnnw, ni fydd yn cyfrif tuag at y cyfyngiad o bum proffil.

# Rheoli datganiadau o ddiddordeb a ddaw i chi

Os yw’ch proffil ar gael i weithwyr cymdeithasol eraill, mae’n bosibl y byddwch yn derbyn datganiadau o ddiddordeb. Bydd gennych y cyfle i ddarllen proffil y plentyn a dewis rhwng dechrau trafodaeth neu beidio drwy glicio ar un ai ‘Dechrau Trafodaeth’ neu ‘Peidio dechrau trafodaeth’.




Os ydych chi’n dewis peidio â dechrau trafodaeth, bydd y system yn gofyn i chi am adborth. Os ydych chi’n dewis dechrau trafodaeth, gallwch anfon negeseuon a dogfennau i weithiwr cymdeithasol y plentyn/plant.


Os ydych chi wedi cysylltu â gweithiwr cymdeithasol, gallwch roi caniatâd i’r gweithiwr cymdeithasol yr ydych wedi cysylltu ag ef i reoli’ch ymholiadau ar eich rhan. Mae hyn yn golygu y bydd e’n ymateb i unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb a anfonir i chi ar eich rhan (gweler adran flaenorol).

Byddwch hefyd yn gweld botwm cydnabod pan anfonir diddordeb atoch. Gallwch glicio ar hwn i nodi eich bod wedi gweld y diddordeb a byddwch yn dod yn ôl ato. Bydd yn gohirio agor trafodaeth am bythefnos arall.

# Defnyddio’r dudalen trafodaethau a diddordebau

Mae’r dudalen diddordebau a thrafodaethau yn gweithredu fel eich bwrdd gwaith ar gyfer eich holl ymholiadau, sy’n golygu y gallwch reoli eich holl drafodaethau mewn un lleoliad.

I fynd at y dudalen diddordebau a thrafodaethau, dewiswch ‘Trafodaethau’ yn y ddewislen ‘Dod o hyd i blant’. Fel arall, cliciwch ar y symbol amlen yn y gornel ar y dde sydd wrth eich enw defnyddiwr. Mae’n bosibl y gall y symbol hwn ymddangos gyda rhif sy’n nodi bod gennych drafodaethau sydd angen eich sylw.





Ar y dudalen hon, mae eich holl drafodaethau actif wedi’u rhannu’n bedair rhan: angen sylw (ar gyfer y trafodaethau hynny sydd angen sylw); trafodaethau (ar gyfer sgyrsiau actif gyda gweithwyr cymdeithasol plant); datganiadau o ddiddordeb yr ydych chi’n eu hanfon (ar gyfer datganiadau o ddiddordeb sydd angen ymateb iddyn nhw) a datganiadau o ddiddordeb sy’n cael eu hanfon atoch chi (ar gyfer datganiadau o ddiddordeb yn eich proffil nad ydych eto wedi ymateb iddynt).  Gallwch weld eich holl drafodaethau sydd wedi dod i ben drwy glicio ar y tab ‘Gorffennol’.

## Rheoli hysbysiadau proffil newydd


Gyda Link Maker, gallwch gael hysbysiadau e-bost pan fydd proffiliau newydd ar gael i chi. Gallwch ddiwygio’r hysbysiadau hyn i ddiwallu’ch anghenion chi fel mai dim ond cael eich hysbysu am broffiliau sy’n berthnasol i chi y byddwch.

Ewch i’r gwymplen enw defnyddiwr a dewis ‘Rheoli gosodiadau hysbysiadau’. I droi’r hysbysiadau ymlaen, yn syml dewiswch ‘dangos’ yn y gwymplen ‘hysbysiadau proffil newydd’ a pharhau i lenwi eich meini prawf ar gyfer proffiliau y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Arbedwch eich gosodiadau ac yna byddwch yn dechrau derbyn hysbysiadau.





## Rheoli gosodiadau eich cyfrif

Gellir dod o hyd i’r holl osodiadau sy’n gysylltiedig â’ch cyfrif, yn hytrach na’ch proffil, yn y ddewislen enw defnyddiwr.



Gallwch newid manylion ynghylch eich cyfrif, cyfrinair, enw defnyddiwr neu PIN, rheoli'r asiantaethau yr ydych wedi cysylltu â hwy, dileu'r proffiliau sy'n cyd-fynd â'ch proffil (gweler adran flaenorol), rheoli gosodiadau ar gyfer hysbysiadau (gweler adran flaenorol), gweld gwybodaeth diogelwch neu allgofnodi o'ch cyfrif.

## Defnyddio nodweddion cymun




Gallwch greu proffil cymunedol a rhyngweithio gydag eraill yn ystod pob cam o'r broses fabwysiadu. Mae'r nodweddion cymunedol yn cynnwys adran holi ac ateb, sgwrs gymunedol, chwiliwr ffrind chwarae, digwyddiadau a grwpiau cymunedol.

Gellir defnyddio'r holl nodweddion cymunedol yn y gwymplen 'Cymuned'.

## Dod o hyd i gymorth pellach

I gael rhagor o help a chymorth, cliciwch ar y botwm 'Help' yn y ddewislen ar y brig, wrth eich enw defnyddiwr. Gallwch hefyd gael cyngor a chyfarwyddyd gan fabwysiadwyr eraill gyda'n nodweddion cymunedol (gweler adran flaenorol). Fel arall, ffoniwch ein tîm cymorth ar 0843 886 0040.